Y PWYLLGOR DEDDFAU

CRYNODEB O WAITH Y PWYLLGOR DEDDFAU 1999 -2003

Cynhaliodd y Pwyllgor ei gyfarfod cyntaf ar 29 Mehefin 1999. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'n gweithgareddau o fis Tachwedd 1999 hyd yma. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r Pwyllgor wedi cyfarfod 110 o weithiau i gyd hyd yn hyn. Mae'r ffigurau a ddyfynnir yn y papur hwn yn cyfeirio at 108 o gyfarfodydd y Pwyllgor (hyd at y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2003, gan gynnwys y cyfarfod hwnnw). Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r Pwyllgor wedi cyhoeddi tri Adroddiad Blynyddol. Ar ôl i'r Rheolau Sefydlog gael eu newid, gosodwyd yr Adroddiad Blynyddol diwethaf gerbron y Cynulliad. Gallwch ddod o hyd i gopïau o adroddiadau, agendâu, papurau a chofnodion y Pwyllgor ar dudalen y pwyllgorau ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol - www.cymru.gov.uk

Aelodaeth

Yr aelodau presennol yw Mr Mick Bates AC (Cadeirydd), Dr Dai Lloyd AC, Mrs Pauline Jarman AC, Mr Owen John Thomas AC, Mr Huw Lewis AC, Mrs Rosemary Butler AC, Mr Tom Middlehurst AC, Mr Ron Davies AC a Mr Jonathan Morgan AC.

Rôl a Chyfrifoldebau'r Pwyllgor

Pennir cyfrifoldebau'r Pwyllgor Deddfau yn adrannau 58 a 59 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 ac yn Rheol Sefydlog 11.

Rôl y Pwyllgor Deddfau yw gwneud yn siwr nad oes unrhyw ddiffygion yn y ddeddfwriaeth sy'n dod gerbron y Cynulliad llawn, a'i bod yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion perthnasol. Mae'r Pwyllgor yn craffu ar is-ddeddfwriaeth ddrafft y mae'r Cynulliad yn bwriadu'i chyflwyno a hefyd ar ddeddfwriaeth sy'n cael ei gwneud o dan y weithdrefn weithredol. Mae'n cyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad am y fersiynau drafft, gan dynnu sylw at unrhyw nodweddion arbennig sydd ynddynt, a hynny am y rhesymau a nodir yn Rheolau Sefydlog y Cynulliad.

O dan Ddeddf Llywodraeth Cymru, ni chaiff y Cynulliad roi i'r pwyllgor gyfrifoldebau nad ydynt yn ymwneud â chraffu ar ddeddfwriaeth y Cynulliad. Mae Adran 58(5) yn caniatáu i'r Cynulliad roi i'r Pwyllgor Deddfau gyfrifoldebau ychwanegol mewn perthynas â chraffu ar is-ddeddfwriaeth Gymreig berthnasol. Er hynny, (yn rhinwedd adran 58(7)), ni chaiff y Cynulliad roi cyfrifoldebau i'r Pwyllgor Deddfau nad ydynt yn ymwneud â chraffu ar is-ddeddfwriaeth Gymreig berthnasol.

Nid oes gan y Pwyllgor unrhyw gyfrifoldeb o ran cyhoeddi is-ddeddfwriaeth. Er hynny, mae gan y Pwyllgor Deddfau ddiddordeb penodol mewn cyflwyno is-ddeddfwriaeth mewn ffordd effeithiol (yn rhinwedd ei rôl adrodd o dan Reol Sefydlog 11.5(iv)), ac, yn fwy cyffredinol, o safbwynt a yw'n ddealladwy i'r sawl sy'n ei defnyddio.

Mae Cynghorydd Cyfreithiol y Pwyllgor Deddfau, Mr J.H. Turnbull, a'r Dirprwy Gynghorydd Cyfreithiol, Mr Huw Rowlands, yn cynorthwyo'r Pwyllgor i arfer ei swyddogaethau. Dim ond i'r Pwyllgor Deddfau y maent yn rhoi cyngor, a hynny er mwyn sicrhau eu hannibyniaeth fel cynghorwyr pwyllgor craffu.

Rheol Sefydlog 11.5

Mae Rheol Sefydlog 11.5 yn nodi ar ba seiliau y dylai'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad Cenedlaethol i roi sylw arbennig i ddeddfwriaeth. Mae'r seiliau fel a ganlyn:

- amheuaeth a yw'r ddeddfwriaeth o fewn pwerau'r Cynulliad
- mae'n ymddangos bod y ddeddfwriaeth yn gwneud defnydd anarferol neu annisgwyl o'r pwerau
- mae wedi ei heithrio rhag cael ei herio yn y llysoedd
- mae'n ymddangos bod iddi effaith adolygol anawdurdodedig
- mae angen eglurhad pellach am ei ffurf neu ei hystyr
- mae'n ymddangos bod y drafftio'n ddiffygiol
- mae'n methu â bodloni gofynion statudol neu ofynion cyfreithiol eraill
- mae'n ymddangos bod anghysondebau rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg.

Cyn adrodd i'r Cynulliad, mae'n ofynnol i'r Pwyllgor, o dan Reol Sefydlog 11.4, hysbysu'r Gweinidiog Cynulliad perthnasol am y bwriad hwn, a'i wahodd ef neu hi i roi tystiolaeth gerbron y Pwyllgor.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, ystyriodd y Pwyllgor 659 o ddarnau o ddeddfwriaeth.

Weithiau, os gellir cywiro diffyg drwy Femorandwm Cywiriadau, nid yw'r Pwyllgor wedi adrodd i'r Cynulliad yn ffurfiol o dan Reol Sefydlog 11.5. Yn lle hynny, mae wedi cyflwyno adroddiad "clir", gan ddatgan ei fod yn gwneud hynny ar yr amod bod y Gweinidog yn gosod Memorandwm Cywiriadau priodol. Yn ystod cyfnod yr adroddiad, digwyddodd hyn 71 o weithiau (10.8%)

Gwahoddodd y Pwyllgor y Cynulliad i roi sylw arbennig i deddfwriaeth ar 53 achlysur gwahanol (8.0% o'r eitemau a ystyriwyd) am y rhesymau a ganlyn:

- amheuaeth a oedd y ddeddfwriaeth o fewn pwerau'r Cynulliad - 3 achos (5.7%)
- roedd angen eglurhad pellach am ei ffurf neu ei hystyr - 6 achos (11.3%)
- roedd angen eglurhad pellach am ei ffurf neu ei hystyr ac roedd yna rywfaint o wallau teipograffyddol - 2 achos (3.8%)
- roedd angen eglurhad pellach am ei ffurf neu ei hystyr ac roedd anghysondebau rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg - 1 achos (1.9%)
- roedd yn ymddangos bod y drafftio'n ddiffygiol - 21 achos (39.6%)
- roedd yn ymddangos bod y drafftio'n ddiffygiol a bod angen eglurhad pellach am ffurf neu ystyr y ddeddfwriaeth - 8 achos (15.0%)

- roedd yn ymddangos bod y drafftio'n ddiffygiol ac roedd anghysondebau rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg - 3 achos (5.7%)
- roedd amheuaeth a oedd y ddeddfwriaeth o fewn pwerau'r Cynulliad ac roedd yn ymddangos bod y drafftio'n ddiffygiol - 1 achos (1.9%)
- roedd yn ymddangos bod effaith adolygol i'r ddeddfwriaeth - 3 achos (5.7%)
- nid oedd y bodloni gofynion statudol a gofynion cyfreithiol eraill, ac roedd anghysondebau rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg - 3 achos (5.7%)
- roedd anghysondebau rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg - 2 achos (3.8%)

Dosbarthiad o'r Problemau a Gadarnhawyd gan y Pwyllgor o dan Reol Sefydlog 11.5 (Siart Bar)



Cyfres 1 - Memorandwm Cywiriadau - dim adroddiad ffurfiol anffafriol
Cyfres 2 - Amheuaeth a oedd y ddeddfwriaeth o fewn pwerau'r Cynulliad
Cyfres 3 - Roedd angen eglurhad pellach am ffurf neu ystyr y ddeddfwriaeth
Cyfres 4 - Roedd angen eglurhad pellach am ffurf neu ystyr y ddeddfwriaeth ac roedd rhywfaint o wallau teipograffyddol
Cyfres 5 - Roedd angen eglurhad pellach am ffurf neu ystyr y ddeddfwriaeth ac roedd anghysondebau rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg
Cyfres 6 - Roedd yn ymddangos bod y drafftio'n ddiffygiol
Cyfres 7 - Roedd yn ymddangos bod y drafftio'n ddiffygiol a bod angen eglurhad pellach am ffurf neu ystyr y ddeddfwriaeth
Cyfres 8 - Roedd yn ymddangos bod y drafftio'n ddiffygiol a bod anghysondebau rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg
Cyfres 9 - Roedd amheuaeth a oedd y ddeddfwriaeth o fewn pwerau'r Cynulliad ac roedd yn ymddangos bod y drafftio'n ddiffygiol.
Cyfres 10 - Roedd yn ymddangos bod effaith adolygol i'r ddeddfwriaeth

Cyfres 11 - Nid oedd yn bodloni gofynion statudol a gofynion cyfreithiol eraill, ac roedd anghysondebau rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg.
Cyfres 12 - Roedd anghysondebau rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg.

Sylwadau

Heblaw am adrodd yn ffurfiol o dan Reol Sefydlog 11.5, mae adroddiadau'r Pwyllgor i'r Cynulliad wedi cynnwys sylwadau am fân faterion yn ymwneud ag arddull.

Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol o'r angen i sicrhau bod deddfwriaeth y Cynulliad wedi'i drafftio mewn arddull fodern, gan ddefnyddio iaith glir, syml. Anogir y drafftwyr i ddefnyddio brawddegau byr. Gwnaed awgrymiadau gan y Pwyllgor 245 o weithiau (37.8%) ynghylch yr angen am fwy o eglurder, ynghyd ag awgrymiadau ynghylch lle y gellid symleiddio'r drafftio er mwyn helpu'r darllenydd. Daethpwyd o hyd i wallau teipograffyddol a gramadegol 221 o weithiau (33.5%).

Mae mwyafrif helaeth y Gorchmynion a gyflwynwyd wedi dilyn awgrym y Pwyllgor ynghylch osgoi defnyddio iaith sy'n cyfeirio at un rhyw benodol. Dim ond mewn 22 o Orchmynion (3.3%) y gwelwyd iaith a oedd yn cyfeirio at un rhyw benodol.

Mae'n ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol lunio deddfwriaeth ddwyieithog ac eithrio pan nad yw hynny'n briodol neu pan nad yw'n rhesymol ymarferol. Cafodd 594 o'r Gorchmynion a gyflwynwyd i'r Pwyllgor (90.1%) eu drafftio'n ddwyieithog, a dim ond mewn 37 (6.2%) ohonynt y gwelwyd anghysondebau rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg.

Mae'r tri Adroddiad Blynyddol y mae'r Pwyllgor wedi'u cyhoeddi yn ymdrin â 'r cyfnod rhwng 29 Mehefin 1999 a mis Medi 2002. Yn ystod y cyfnod hwn, ystyriodd y Pwyllgor gyfanswm o 529 o Orchmynion. Ym mis Medi 2002, roedd 505 o Offerynnau Statudol ar gael ar ffurf fersiynau printiedig terfynol. O blith y rhain, cymerwyd awgrymiadau'r Pwyllgor i ystyriaeth mewn 170 o'r fersiynau terfynol (33.7%); cynhwyswyd rhai o'r awgrymiadau mewn 75 o'r fersiynau terfynol (14.9%); ni chynhwyswyd yr awgrymiadau mewn 101 o'r fersiynau terfynol (20%); cymerwyd pwyntiau'r Pwyllgor i ystyriaeth mewn 6 achos (1.2%), a bwriedir eu diwygio drwy Orchymyn diwygio. Nid oedd angen i'r Pwyllgor wneud unrhyw sylwadau mewn perthynas â 153 o Orchmynion (30.3%).

Mewn sawl achos, cafodd cynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor gyfle i wneud sylwadau am ddrafftiau cynnar o'r ddeddfwriaeth. Canlyniad hyn oedd bod nifer sylweddol o wallau drafftio a phwyntiau tebyg wedi'u cywiro cyn i'r ddeddfwriaeth gael ei chyflwyno'n ffurfiol i'r Pwyllgor.

Gweithdrefnau Gwneud Deddfwriaeth

O'r 659 o Orchmynion a ystyriwyd gan y Pwyllgor yn ystod y cyfnod rhwng 29 Mehefin ac 11 Chwefror, 2003, defnyddiwyd y Weithdrefn Weithredol 261 o weithiau (39.6%), a'r Gweithdrefnau Safonol, Cyflym ac Estynedig 398 o weithiau (60.4%).

CRYNODEB O'R GWEITHGAREDDAU ERAILL

Mae'r Pwyllgor wedi ymgymryd â nifer o weithgareddau sy'n gysylltiedig â'i rôl:

Ymweliadau a wnaed gan / ar ran y Pwyllgor

- Ym mis Medi 2000 ymwelodd y ddirprwyaeth o'r Pwyllgor Deddfau â Senedd yr Alban er mwyn gweld Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth Senedd yr Alban wrth ei waith ac er mwyn cyfnewid barn am arferion ac am weithdrefnau;

- Ym mis Gorffennaf 2001, aeth Cadeirydd y Pwyllgor, ynghyd â chynrychiolydd o Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol, i'r Gynhadledd Ryngwladol ar Ddiwygio Rheoliadau, Craffu ar Ddeddfwriaeth a'i Rheoli, a gynhaliwyd yn Sydney (Awstralia). Gwnaeth y Cadeirydd gyflwyniad yn dwyn y teitl "Diwygio Rheoliadol - Persbectif Cymru";

- Ym mis Medi 2001, ymwelodd Aelodau a swyddogion y Pwyllgor â Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol i drafod technegau drafftio deddfwriaeth;

- Ym mis Tachwedd 2002, ymwelodd Aelodau a swyddogion y Pwyllgor â Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol er mwyn ceisio deall y broses ddrafftio deddfwriaeth yn well.

Ymweliadau â'r Pwyllgor / Dirprwyaethau y cyfarfu aelodau a swyddogion y Pwyllgor â hwy

- Ym mis Mawrth 2000, ymwelodd dirprwyaeth o Bwyllgor Is-ddeddfwriaeth Senedd yr Alban â'r Pwyllgor Deddfwriaeth. Roedd yn achlysur addysgiadol a defnyddiol iawn;

- Ym mis Gorffennaf 2000, ar y cyd â Chymdeithas y Gyfraith, croesawodd y Pwyllgor Deddfau gynrychiolwyr o Bwyllgor Adolygu Rheoliadau De Cymru Newydd;

- Ym mis Mehefin 2001, gwnaed cyflwyniad gan y Cwnsler Cyffredinol, Mr W. Roddick QC ar lunio deddfwriaeth yn ddwyieithog. Rhannodd â'r Pwyllgor y wybodaeth a gafodd ar ei ymweliad mewn perthynas â'r dechneg "ddrafftio ar y cyd" sy'n cael ei defnyddio yn Llywodraeth Ffederal Canada. Cynhaliwyd sesiwn holi ac ateb arall gydag ef ar y pwnc hwn ym mis Gorffennaf 2001;

- Ym mis Hydref 2001, cynhaliodd y Pwyllgor drafodaeth ag Uwch Gwnsler y Cynulliad, Mr Gwyn Griffiths, ar ddrafftio offerynnau statudol brys clwy'r traed a'r genau;

- Ym mis Rhagfyr 2001, daeth y Cwnsler Cyffredinol i gyfarfod o'r Pwyllgor i gyflwyno'i ail adroddiad yn dwyn y teitl: "The Operation Of A System Of Lawmaking And Justice That In Practice Treats English And Welsh On A Basis Of Equality. A Further Report On The Lessons From The Canadian Experience", a gofynnwyd i'r aelodau gymeradwyo'r argymhellion a geir ynddo;

- Ym mis Hydref, cyfarfu Mr Mick Bates, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau, Dr Dai Lloyd, un o Aelodau'r Pwyllgor, a swyddogion y Pwyllgor, â chynrychiolwyr o Senedd Fflandrys;

- Ym mis Tachwedd 2001, cyfarfu aelodau a swyddogion y Pwyllgor â'r pedwar Comisiynydd Cyfansoddiadol o Uganda;

- Ym mis Mawrth 2002, daeth y ddirprwyaeth o Bwyllgor Sefydlog Cynulliad Deddfwriaethol Ontario i gyfarfod y Pwyllgor Deddfau er mwyn cyfnewid gwybodaeth am swyddogaethau a gweithdrefnau'r ddau Bwyllgor;

- Ym mis Mawrth 2002, cymerodd swyddogion y Pwyllgor ran mewn trafodaethau gyda rhai o swyddogion Awdurdod Llundain Fwyaf yn ystod eu hymweliad â Chynulliad Cenedlaethol Cymru;

- Ym mis Ebrill 2002, ymwelwyd â'r Pwyllgor Deddfau gan ddirprwyaeth o Gyd-bwyllgor Ty'r Cyffredin ar Offerynnau Statudol, a Phwyllgor Dadreoleiddio a Diwygio Rheoliadol Ty'r Arglwyddi. Roedd yr ymweliad yn barhad o gydweithrediad y Pwyllgor Deddfau â chyrff Seneddol sydd â chyfrifoldebau tebyg, ac roedd yn fuddiol i bawb a gymerodd ran ynddo. Aeth y ddirprwyaeth i gyfarfod ffurfiol o'r Pwyllgor Deddfau. Dilynwyd disgrifiad byr o waith y Pwyllgor Dadreoleiddio a Diwygio Rheoliadol, y Cyd-bwyllgor Offerynnau Statudol a Phwyllgor Deddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan drafodaeth;

- Ym mis Mai 2002, daeth cynrychiolwyr Theatr Fforwm Cymru i gyfarfod o'r Pwyllgor Deddfau er mwyn egluro cefndir Theatr Fforwm Cymru a'u prosiect presennol "AGORA";

- Ym mis Mawrth 2003, daeth Clerc y Pwyllgor Dethol ar Bwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoliadol, Chrisitne Salmon, i gyfarfod o'r Pwyllgor yn ystod ei hymweliad astudio â Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

Seminarau Amser Cinio ar Ddrafftio Deddfwriaeth

- Ym mis Chwefror 2002, ar y cyd â Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol, cynhaliodd y Pwyllgor Deddfau seminar amser cinio ar gyfer Aelodau'r

Cynulliad, eu staff cymorth a gweision sifil y Cynulliad ar ddrafftio a chyd-ddrafftio deddfwriaeth;

- Ym mis Mai 2002, cynhaliodd y Pwyllgor Deddfau a Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol ail seminar ar y cyd ar ddrafftio deddfwriaeth ar gyfer cyrff allanol a'r wasg;

- Ym mis Gorffennaf 2002, cynhaliwyd fersiwn byrrach o'r seminar ar ddrafftio is-ddeddfwriaeth ar gyfer Aelodau Panel y Cadeiryddion a chlercod y Pwyllgorau Pwnc;

- Ym mis Ionawr 2002, cynhaliwyd seminar ar ddeddfwriaeth sylfaenol. Roedd wedi'i anelu at Aelodau'r Cynulliad, eu staff ymchwil a gweision sifil.

Cyflwyniadau Ysgrifenedig gan y Pwyllgor

Cyflwyniad Ysgrifenedig i Grwp Adolygu Gweithdrefn y Cynulliad

Ddechrau 2001, gwnaed cyflwyniad ysgrifenedig gan y Pwyllgor Deddfau i Grwp Adolygu Gweithdrefn y Cynulliad, lle'r awgrymwyd y newidiadau a ganlyn:

- Dylid rhoi gwybodaeth reolaidd i holl Aelodau'r Cynulliad am is-ddeddfwriaeth arfaethedig, gan anfon copi at y Pwyllgor Deddfau (mae hyn wedi'i wneud - mae'r wybodaeth ar gael ar y Fewnrwyd);
- Dylid rhoi gwybodaeth reolaidd i Gadeiryddion unigol y Pwyllgorau Pwnc am is-ddeddfwriaeth arfaethedig sy'n benodol i'w maes cyfrifoldeb hwy (mae hyn wedi'i wneud);
- Dylid treulio mwy o amser yn y pwyllgorau pwnc ac yn y cyfarfod llawn yn trafod cynigion sy'n ymwneud ag is-ddeddfwriaeth (mae hyn wedi'i wneud i raddau);
- Dylid diwygio'r seiliau dros gyflwyno adroddiad o dan 11.5(v) er mwyn ei gwneud yn amlwg eu bod yn cynnwys methu â bodloni gofynion y rheolau sefydlog (ar waith);
- Dylai fod yn ofynnol i'r Gweinidog egluro pam fod angen defnyddio'r weithdrefn weithredol (mae hyn wedi'i wneud);
- Dylai'r Pwyllgor Deddfau gael nodi a fyddai'n well ganddo ateb ysgrifenedig i'w ymholiadau neu fod y Gweinidog yn dod i'r cyfarfod i roi'r esboniadau angenrheidiol (heb ei wneud);
- Dylai fod yn ofynnol i'r Pwyllgor Deddfau Iunio Adroddiad Blynyddol (wedi'i wneud);
- Dylai siart lif fod ar gael i holl Aelodau'r Cynulliad yn dangos yr holl gamau y gall fod yn ofynnol i is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y weithdrefn safonol fynd drwyddynt, ynghyd â gwybodaeth ynghlych lle y mae pob darn o ddeddfwriaeth arni yn y broses honno - dylai fod ar gael ar y Fewnrwyd a'r Rhyngrwyd (mae hyn wedi'i wneud i raddau - mae gwybodaeth ar gael ar y Rhyngrwyd).

Cyflwyniad Ysgrifenedig i Gomisiwn yr Arglwydd Richard

Ym mis Rhagfyr 2002, gwnaed cyflwyniad ysgrifenedig gan y Pwyllgor Deddfau i Gomisiwn yr Arglwydd Richard, ac ymddangosodd y Cadeirydd gerbron y Comisiwn. Ymhlith y materion a godwyd yn y cyflwyniad oedd y rhai a ganlyn:

- Pwerau digonol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru er mwyn i'r Cynulliad weithredu'n effeithiol a bodloni disgwyliadau pobl Cymru: pwysleisiwyd bod anghysondeb ar hyn o bryd yn y ffaith bod yna Gynulliad yng Nghymru sydd â chyfrifoldeb dros weithredu polisi na all ddylanwadu arno, a Senedd yn Llundain sydd â chyfrifoldeb dros ddeddfu ar gyfer cyflwyno polisi, ond sydd heb y gallu i roi'r polisi hwnnw ar waith;

- Methiant y system bresennol i roi rhan i Aelodau Cynulliad neu fuddiannau ehangach wrth lunio cynigion ar gyfer deddfwriaeth yn San Steffan, a methiant hefyd i roi rhan iddynt yn y gwaith o lunio'r polisi sydd wrth wraidd y cynigion hynny;

- Siom nad yw Llywodraeth y DU wedi ymateb yn fwy cadarnhaol i gynigion am ddeddfwriaeth, gan nodi, ers datganoli, mai dim ond un Ddeddf ar gyfer Cymru'n unig ac un Mesur sydd ar yr amserlen ar gyfer y sesiwn Seneddol nesaf;

- Pwysigrwydd roi pwerau i'r Cynulliad lunio deddfwriaeth sylfaenol yng Nghymru er mwyn datblygu gallu gwleidyddol a chyfreithiol a fydd yn rhoi mynegiant llawn i ofynion Cymru o ran polisi: ymhlith yr enghreifftiau o ddefnyddio pwerau deddfu sylfaenol mewn Corff Deddfwriaethol yng Nghymru fyddai meysydd megis Iechyd (Gofal Personol Di-dâl); Addysg (er mwyn newid ffïoedd dysgu) ac Iechyd Anifeiliaid.

O safbwynt effaith bosibl mwy o bwerau, nododd y Pwyllgor y pwyntiau a ganlyn:

- Pe bai'r Cynulliad yn cael pwerau deddfu llawn, a phe bai'r strwythur presennol yn cael ei rannu'n Gorff Deddfwriaethol a Gweithrediaeth ar wahân, byddai'r swyddogaeth o wneud is-ddeddfwriaeth yn cael ei breinio yn y Weithrediaeth pe bai'r Cynulliad yn mabwysiadu patrwm San Steffan a'r Alban. Byddai'r Pwyllgor yn adrodd i'r Corff Deddfwriaethol mewn perthynas â chamau a gymerir gan y Weithrediaeth;

- Y posibilrwydd o roi swyddogaeth ychwanegol i'r Pwyllgor Deddfau mewn perthynas ag adrodd ar bwerau is-ddeddfwriaeth mewn deddfwriaeth sylfaenol arfaethedig;

- Y posibilrwydd o roi rôl i'r Pwyllgor Deddfau o safbwynt cynghori'r Corff Deddfwriaethol ar ddrafftio deddfwriaeth sylfaenol a gyflwynir gerbron u Corff Deddfwriaethol.